Estyn

# Arweiniad i Arolygwyr

# Beth rydym yn ei arolygu (2024 – 2030): Addysg bellach



Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
| --- | --- |

**Cyflwyniad i ‘Beth rydym yn ei arolygu’ .................................................. 1**

Gwerthuso pob maes arolygu (MA) ......................................................... 1

Ynglŷn â’r coleg addysg bellach............................................................... 1

Ystod y ddarpariaeth sy’n cael ei chynnwys yn yr arolygiad ...................... 2

Crynodeb ................................................................................................. 2

Argymhellion ............................................................................................ 2

Beth sy’n digwydd nesaf ........................................................................... 3

Meysydd arolygu....................................................................................... 4

**Fframwaith ar gyfer arolygu colegau addysg bellach ............................ 5**

1. Addysgu a dysgu ................................................................................... 5

2. Lles, gofal, cymorth ac arweiniad .......................................................... 7

3. Arwain a gwella ..................................................................................... 10

## Cyflwyniad i ‘Beth rydym yn ei arolygu’

Mae’r llawlyfr hwn yn amlinellu beth mae angen i arolygwyr ei ystyried wrth werthuso’r tri maes arolygu mewn Addysg Bellach (AB). Mae’n esbonio ‘Beth rydym yn ei arolygu’. Mae’r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a holl aelodau eraill y tîm arolygu, gan gynnwys yr enwebai. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer unrhyw un sydd eisiau deall ein hymagwedd at arolygu yn well. Mae llawlyfr ar wahân o’r enw ‘ Sut rydym yn arolygu’ sy’n esbonio’r broses a’r fethodoleg arolygu.

Mae’r tri maes arolygu wedi’u hamlinellu isod:

MA1 – Addysgu a dysgu

MA2 – Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

MA3 – Arwain a gwella

Mae mwy o wybodaeth am arolygiadau ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru

### Gwerthuso pob maes arolygu (MA)

Ni fydd timau arolygu’n rhoi graddau cyffredinol ar gyfer pob maes arolygu. Fodd bynnag, byddant yn llunio gwerthusiad cadarn a thrylwyr o ddarpariaeth addysg bellach y coleg a’i heffaith ar ddysgu a lles dysgwyr.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir yn gysylltiedig â’r prif agweddau ym mhob maes arolygu, fel y dangosir isod. Fodd bynnag, efallai y bydd yr hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob maes arolygu yn wahanol yn dibynnu ar gyd-destun ac arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn dod o hyd iddo ym mhob coleg addysg bellach. Gallai arolygwyr adrodd ‘trwy eithriad’. Mae hyn yn golygu y gallent adrodd ar rai agweddau dim ond lle mae cryfderau penodol neu feysydd penodol i’w gwella.

Pan mae arolygwyr yn nodi unrhyw arfer ddiddorol neu arloesol a allai fod yn werth ei rhannu’n ehangach, byddant yn cynnwys darn byr, ‘sbotolau ar...’ o fewn yr adroddiad (paragraff byr). Byddwn yn arddangos amrywiaeth o’r sbotoleuadau hyn ar ein gwefan. Pan mae arolygwyr yn nodi diffygion difrifol mewn un maes arolygu neu fwy, bydd gweithgarwch dilynol fel arfer yn cael ei drefnu ar gyfer y coleg addysg bellach. Ceir mwy o arweiniad am weithgarwch dilynol yn ‘Sut rydym yn arolygu’.

### Yr adroddiad arolygu

Ar ôl arolygiad, bydd pob coleg addysg bellach yn derbyn adroddiad. Bydd yr adroddiadau’n cael eu cyhoeddi ar wefan Estyn. Gellir dod o hyd i ddyddiadau cyhoeddi ar y wefan. Mae’r canlynol yn amlinellu beth sydd wedi’i gynnwys ym mhob adran o’r adroddiad.

### Ynglŷn â’r coleg addysg bellach

Bydd yr adran hon o’r adroddiad yn fyr ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol yn unig am y coleg. Ni fydd yn cynnwys unrhyw werthusiad o’r ddarpariaeth. Bydd yr

arolygydd cofnodol fel arfer yn cytuno ar gynnwys yr adran hon gyda'r coleg yn ystod yr arolygiad ac yn ystod y gwiriad ffeithiol o'r adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi. Y data a gyflwynir fydd y data cenedlaethol diweddaraf sydd wedi cael ei wirio a'i gyhoeddi, gyda'r ffynonellau'n cael eu cydnabod mewn troednodiadau. Os oes anghytundeb am gynnwys yr adran hon, yr arolygydd cofnodol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â beth i'w gynnwys yn yr adroddiad. Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth fras am y canlynol:

- maint, natur a lleoliadau campysau a chyfleusterau'r coleg addysg bellach
- unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf
- ystod a maint y ddarpariaeth alwedigaethol ac academaidd, gan gynnwys lefelau cyrsiau ac unrhyw ddarpariaeth arbenigol
- nifer y dysgwyr amser llawn a rhan-amser sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach yn y coleg
- cefndir ac amgylchiadau'r dysgwyr, fel nifer y dysgwyr â chynlluniau datblygu unigol, nifer y dysgwyr o gefndiroedd pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r gyfran sy'n byw mewn cyd-destunau sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol
- cefndir ieithyddol dysgwyr, gan gynnwys cyfran y dysgwyr sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg
- nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) a gyflogir yn uniongyrchol gan y coleg
- perchnogaeth y coleg, er enghraifft y rhai sy'n gweithredu fel corfforaethau addysg bellach annibynnol neu is-gyrff a berchnogir yn gyfan gwbl gan sefydliadau addysg uwch
- dyddiad penodi'r Prif Weithredwr neu'r pennaeth
- mis / blwyddyn arolygiad blaenorol y coleg

Os yw'n briodol, pan fydd cymeriad crefyddol i'r coleg, dylai'r cyd-destun gynnwys y frawddeg: 'Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol enwadol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd ar gyfer coleg ag iddo gymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'r corff llywodraethol yn trefnu bod addysg grefyddol enwadol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.'

### Ystod y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr arolygiad

Mae arolygiadau colegau addysg bellach yn gwerthuso bron pob un o'r rhaglenni dysgu 16-19 ac ôl-19 a ariennir fel darpariaeth addysg bellach, yn cynnwys cyrsiau addysg uwch a phroffesiynol heb eu pennu a gefnogir trwy gyllid addysg bellach. Caiff darpariaeth SSIE a medrau sylfaenol oedolion ei harolygu trwy arolygiadau dysgu oedolion yn y gymuned, ac ni fydd fel arfer yn cael ei gwerthuso fel rhan o arolygiad coleg addysg bellach.

### Crynodeb

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg cryno o'r prif ganfyddiadau yn yr adroddiad.

### Argymhellion

Dylai argymhellion ddod yn uniongyrchol o gynnwys yr adroddiad, nodi beth mae angen ei wella, a'u hysgrifennu yn nhrefn eu blaenoriaeth.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr adran 'Beth sy'n digwydd nesaf' yn amlinellu'r hyn mae angen i'r coleg ei wneud ar ôl yr arolygiad. Ym mhob achos, bydd disgwyl i arweinwyr ymateb i'r argymhellion trwy roi'r camau priodol ar waith i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu.

Bydd yr adran hon yn esbonio p'un a oes angen gweithgarwch dilynol ar y ddarpariaeth. Dylai'r rhesymau dros y math o weithgarwch dilynol fod yn glir ym mhrif gorff yr adroddiad.

## Gwybodaeth ychwanegol

Bydd yr adran hon yn cynnwys datganiad ar yr eitem ganlynol:

### Trefniadau diogelu

Datganiad i nodi p'un a yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus ddim yn peri pryder o gwbl, neu p'un a oes achosion pryder.

## Sail dystiolaeth yr arolygiad

Bydd arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i wneud yn siŵr bod eu canfyddiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiodd arolygwyr, yn ogystal ag ystod y gweithgareddau a wnaethant yn ystod eu hymweliad.

**Meysydd arolygu**

Mae’r adran ganlynol yn esbonio beth mae pob maes arolygu yn ei gwmpasu a beth mae angen i arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un. Mae’r meysydd arolygu wedi’u rhifo yn 1 – 3, ond maent i gyd yr un mor bwysig â’i gilydd.

| 1. Addysgu a dysgu | 2. Lles, gofal, cymorth ac arweiniad | 3. Arwain a gwella |
|---|---|---|
| Pa mor effeithiol y mae’r coleg yn cefnogi dysgu’r holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o gael deilliannau anffafriol, er enghraifft y dysgwyr hynny sydd wedi’u heffeithio gan dlodi, dysgwyr ag ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, o ran:<br>**1.1** Safonau gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr, gan gynnwys eu medrau Cymraeg<br>**1.2** Agweddau dysgwyr at ddysgu<br>**1.3** Ansawdd profiadau dysgu, addysgu ac asesu | Pa mor effeithiol y mae’r coleg yn cefnogi lles yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o gael deilliannau anffafriol, er enghraifft y dysgwyr hynny sydd wedi’u heffeithio gan dlodi, dysgwyr ag ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, o ran:<br>**2.1** Yr effaith ar les a datblygiad personol dysgwyr<br>**2.2** Effeithiolrwydd y cymorth, y cyngor a’r arweiniad i ddysgwyr i helpu dysgwyr i ddatblygu fel unigolion a goresgyn unrhyw anfantais y gallent ei hwynebu<br>**2.3** Effeithiolrwydd arferion diogelu a’r diwylliant diogelu | Pa mor effeithiol yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth o ran:<br>**3.1** Cyfeiriad strategol a rheolaeth weithredol<br>**3.2** Hunanwerthuso a gwelliant<br>**3.3** Cynllunio a goruchwylio’r ddarpariaeth<br>**3.4** Datblygu’r gweithle a dysgu proffesiynol |

Mae cyfres o ddogfennau arweiniad atodol ar gael ar ein gwefan. Mae’r rhain yn darparu mwy o wybodaeth am ein hymagweddau at arolygu agweddau amrywiol ar y fframwaith hwn.

## Fframwaith ar gyfer arolygu colegau addysg bellach

Ar draws y fframwaith arolygu, bydd arolygwyr yn ystyried yr agweddau o ran yr effaith y maent yn ei chael ar ddysgu a lles yr holl ddysgwyr.

**Maes Arolygu 1 Addysgu a dysgu**

Pa mor effeithiol y mae'r coleg yn cefnogi dysgu'r holl ddysgwyr, gan gynnwys y dysgwyr hynny sydd mewn perygl o gael deilliannau anffafriol, er enghraifft y dysgwyr hynny sydd wedi'u heffeithio gan dlodi, dysgwyr sydd ag ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, o ran:

1.1 Safonau gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr, gan gynnwys eu medrau Cymraeg

1.2 Agweddau dysgwyr at ddysgu

1.3 Ansawdd y profiadau dysgu, addysgu ac asesu

### 1.1 Safonau gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr, gan gynnwys eu medrau Cymraeg

(Sylwer: mae'r pwyntiau bwled hyn mewn mwy o drefn ddysgu gronolegol yn hytrach na hierarchaeth pwysigrwydd)

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr:

- yn galw dysgu blaenorol i gof
- yn datblygu medrau meddwl
- yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd
- yn datblygu medrau ymarferol, lle bo'n briodol, gan gynnwys medrau a chrefft sy'n benodol i bwnc neu alwedigaeth
- yn cymhwyso'u gwybodaeth, eu medrau a'u profiad i gyd-destunau newydd
- yn dangos creadigrwydd, yn cynnwys datrys problemau creadigol
- yn datblygu eu medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu
- yn datblygu medrau rhifedd a digidol
- yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg i gefnogi eu gyrfaoedd a'u rhyngweithio cymdeithasol yn y dyfodol
- yn cyflawni deilliannau cymhwyster cryf ar lefel a gradd addas, lle bo'n berthnasol
- yn symud ymlaen i gyrchfannau cadarnhaol mewn addysg, hyfforddiant, cyflogaeth neu fyw yn annibynnol

### 1.2 Agweddau dysgwyr at ddysgu

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae dysgwyr:

- yn datblygu hyder ac wedi'u cymell i ddysgu
- yn dangos diddordeb yn eu gwaith
- yn dal ati i ganolbwyntio

- yn ymgymryd â thasgau, a'u cwblhau
- yn dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu anawsterau neu'n chwilio am atebion eraill
- yn ymestyn ac yn herio'u hunain
- yn deall y ffyrdd y maen nhw fel unigolion yn dysgu'n fwyaf effeithiol, ac yn gwneud y gorau o hyn i wneud mwy o gynnydd
- yn dangos medrau gwaith tîm cryf
- yn gallu gweithio'n annibynnol ac ar y cyd â phobl eraill
- yn ystyried cyfraniadau pobl eraill, ac adeiladu arnynt
- yn dysgu oddi wrth eu camgymeriadau
- yn defnyddio adborth gan eu hathrawon a phobl eraill i wneud mwy o gynnydd yn eu dysgu
- yn ymgymryd â phrofiadau a syniadau newydd
- yn datblygu eu medrau cyflogadwyedd a dilyniant gyrfa

### 1.3 Ansawdd profiadau dysgu, addysgu ac asesu

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae athrawon ac ymarferwyr eraill:

- yn sicrhau bod strategaethau addysgu a gweithgareddau dysgu yn cyd-fynd ag anghenion a galluoedd dysgwyr
- yn herio pob un o'r dysgwyr ac yn meddu ar ddisgwyliadau uchel ohonynt ar sail dealltwriaeth gadarn o'u galluoedd
- yn diwallu anghenion cymorth pob un o'r dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'u galluoedd a'u dyheadau, ac wedi'i llywio gan eu cynlluniau datblygu unigol, lle bo'n berthnasol
- yn cynllunio i fodloni gofynion pob rhaglen ddysgu
- yn meddu ar amcanion clir ar gyfer dysgu
- yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau i ymgysylltu a herio
- yn defnyddio holi i ennyn a datblygu ymatebion dysgwyr, ac amgyffred eu dealltwriaeth
- yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir
- yn cymell a chyfeirio dysgwyr
- yn gwneud eu sesiynau'n ysgogol, yn ddifyr ac yn gynhyrchiol
- yn helpu dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso ystod eang o fedrau a gwybodaeth, yn cynnwys medrau cyflogadwyedd trosglwyddadwy
- yn rhoi adborth ar lafar ac yn ysgrifenedig i helpu dysgwyr i wybod pa mor dda maen nhw'n gwneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella
- yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, lle bo'n briodol
- yn olrhain ac yn cadw cofnodion ar gynnydd pob dysgwr, ac yn adrodd ar y rhain yn glir
- yn sicrhau bod asesiadau yn ddilys, yn amserol, yn gywir ac yn ddibynadwy
- yn sicrhau bod dysgwyr yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, yn deall eu cynnydd, ac yn cael eu cynnwys mewn gosod eu targedau dysgu eu hunain; gan gynnwys defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer dysgwyr ag ADY
- yn gweithio gydag aelodau staff technegol, staff dysgu a staff cymorth eraill i gefnogi cynnydd dysgwyr

Ar draws y maes arolygu, dylai arolygwyr ystyried yr effaith ar y grwpiau canlynol o ddysgwyr:

- dysgwyr o wahanol grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chymunedau teithwyr
- dysgwyr sy'n profi tlodi
- dysgwyr ag anableddau
- dysgwyr ag anghenion meddygol, gan gynnwys y rhai ag anghenion iechyd meddwl
- rhieni ifanc a dysgwyr beichiog
- gofalwyr ifanc
- pobl sy'n gadael gofal a phobl ifanc sy'n derbyn gofal
- dysgwyr o'r ddau ryw a gwahanol hunaniaethau rhywedd
- dysgwyr lesbiaidd, hoyw a deurywiol
- dysgwyr y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt
- gweithwyr mudol
- ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- troseddwyr ifanc a throseddwyr sy'n oedolion
- dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol
- dysgwyr sy'n wynebu amddifadedd digidol
- dysgwyr â phresenoldeb neu ymgysylltiad isel, neu sydd mewn perygl o ddisgyn yn ôl yn eu hastudiaethau a allai gael eu targedu am gymorth ychwanegol
- dysgwyr â gwahanol fathau o ADY
- dysgwyr ag anghenion medrau sylfaenol
- dysgwyr, o gymharu ag eraill, y mae angen iddynt wella medrau llythrennedd, rhifedd a digidol nad ydynt yn derbyn cymorth
- dysgwyr mwy abl a thalentog

**Maes Arolygu 2  Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

Pa mor effeithiol y mae'r coleg yn cefnogi lles pob un o'r dysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o gael deilliannau anffafriol, er enghraifft y dysgwyr hynny sydd wedi'u heffeithio gan dlodi, dysgwyr ag ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, o ran:

2.1 Yr effaith ar les a datblygiad personol dysgwyr

2.2 Effeithiolrwydd y cymorth, y cyngor a'r arweiniad i ddysgwyr i helpu dysgwyr i ddatblygu fel unigolion a goresgyn unrhyw anfantais y gallent ei hwynebu

2.3 Effeithiolrwydd arferion diogelu a'r diwylliant diogelu

**2.1 Yr effaith ar les a datblygiad personol dysgwyr**

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae dysgwyr:

- yn teimlo'n ddiogel, yn saff ac yn rhydd oddi wrth gam-drin
- yn teimlo bod y coleg yn gwrando arnynt, ac yn ymateb iddynt
- yn mynychu eu gweithgareddau a'u sesiynau dysgu cynlluniedig yn rheolaidd
- yn rheoli eu hymrwymiadau ac yn blaenoriaethu eu hamser yn effeithiol
- yn dangos hunanymwybyddiaeth

- yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain
- yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus
- yn parchu a gwerthfawrogi amrywiaeth
- yn cyfrannu at wahanol gymunedau ac yn chwarae rhan lawn ym mywyd y coleg
- yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi perthnasoedd iach
- yn cydnabod ac yn ymateb yn briodol i ymddygiadau niweidiol neu afiach
- yn gwneud dewisiadau iach yn ymwneud â diet, gweithgarwch corfforol a lles emosiynol, gan gynnwys diogelwch ar-lein
- yn ystyriol ac yn gefnogol o'u cyfoedion, eu hathrawon, a phobl eraill
- yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn barchus ym mhob fforwm, gan gynnwys ar-lein
- yn cyflwyno delwedd broffesiynol a chadarnhaol i bobl eraill
- yn dangos gwydnwch mewn agweddau ehangach ar fywyd, yn ogystal â'u dysgu
- yn uchelgeisiol a hyderus

### 2.2 Effeithiolrwydd y cymorth, y cyngor a'r arweiniad i ddysgwyr i helpu dysgwyr i ddatblygu fel unigolion a goresgyn unrhyw anfantais y gallent ei hwynebu

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r coleg:

- yn darparu cymorth ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl a lles dysgwyr
- yn cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol pob un o'r dysgwyr er mwyn iddynt allu mwynhau eu dysgu ac elwa ar y cyfleoedd y mae'n eu cynnig
- yn sicrhau presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd dysgwyr ar gyfer gweithgareddau a sesiynau dysgu cynlluniedig
- yn hyrwyddo, yn cefnogi ac yn annog ymddygiad cadarnhaol dysgwyr
- yn olrhain ac yn monitro dangosyddion cynnydd a lles dysgwyr, yn cynnwys presenoldeb, ymgysylltiad ac ymddygiad
- yn nodi materion perthnasol ac yn ymateb yn briodol i ddeilliannau olrhain a monitro, er enghraifft trwy strategaethau ymyrraeth fel tiwtora, mentora, hyfforddi neu gwnsela
- yn gweithio mewn partneriaethau â sefydliadau eraill i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr, yn cynnwys sicrhau gwasanaethau asiantaethau arbenigol, lle bo'n briodol
- yn darparu cymorth ymatebol yn seiliedig ar gynnydd a lles dysgwyr bregus, fel y rhai ag anableddau neu ADY, y rhai sydd wedi'u heffeithio gan dlodi ac anfantais, y rhai â chyfrifoldebau gofalu a dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau eraill rhag dysgu, yn cynnwys heriau personol, domestig, heriau cludiant ac iechyd
- yn trefnu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY yn gysylltiedig â'u hanghenion a'u galluoedd unigol
- yn cynorthwyo dysgwyr sydd â hanes o broblemau ymddygiadol ac ymgysylltu i ddatblygu ymddygiadau priodol ac agweddau priodol at ddysgu
- yn cynorthwyo dysgwyr mwy abl a thalentog i gyflawni eu potensial o fewn eu rhaglenni dysgu a thu hwnt
- yn helpu dysgwyr i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn datblygu gwerthoedd goddefgarwch a pharch
- yn datblygu gwybodaeth dysgwyr am aflonyddu, gwahaniaethu ac eithafiaeth, a'u dealltwriaeth ohonynt
- yn herio stereoteipiau mewn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau

- yn hyrwyddo dealltwriaeth dysgwyr o berthnasoedd iach ac effeithiau aflonyddu rhywiol
- yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach
- yn helpu dysgwyr, gan gynnwys y rhai o grwpiau bregus a lleiafrifol, i ymgymryd â chyfrifoldebau a chwarae rhan yn y gymuned ehangach
- yn hyrwyddo dewisiadau iach am ffordd o fyw, yn cynnwys bwyta ac yfed yn iach, camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar-lein, iechyd meddwl a rheoli baich gwaith
- yn darparu arweiniad a chyngor diduedd am ystod lawn y llwybrau addysg a hyfforddiant sydd ar gael iddynt, gan gynnwys cyn iddynt ymuno â'r coleg ac wrth iddynt baratoi i symud ymlaen i addysg bellach, addysg uwch neu hyfforddiant
- yn darparu arweiniad a chyngor diduedd, naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaethau allanol, am eu hopsiynau gyrfa a'r byd gwaith
- yn eu harwain wrth iddynt baratoi i bontio i'r cyfnod dysgu nesaf, cyflogaeth, a byw yn annibynnol, lle bo'n berthnasol

### 2.3 Effeithiolrwydd arferion diogelu a'r diwylliant diogelu

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae trefniadau diogelu'r coleg:

- yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant diogelwch
- yn sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn cael eu hamddiffyn ar y safle, oddi ar y safle ac ar-lein
- yn nodi dysgwyr dan 18 oed ac oedolion bregus mewn angen neu sydd mewn perygl o niwed sylweddol
- yn sicrhau arferion recriwtio diogel
- yn gwirio ac yn cofnodi addasrwydd staff a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â dysgwyr
- yn hwyluso atgyfeiriadau diogelu priodol
- yn ymgorffori polisïau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â gofynion statudol a chanllawiau Llywodraeth Cymru
- bod gan y coleg bolisïau, gweithdrefnau a threfniadau adrodd priodol o ran ymyriadau corfforol a thynnu allan o wersi
- bod lefel addas o ddiogelwch yn adeiladau'r coleg, ac ar y safle
- yn atal ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu, bwlio, aflonyddu ac aflonyddu rhywiol
- yn datblygu gwybodaeth dysgwyr am ymddygiadau sy'n niweidiol yn emosiynol neu'n anniogel, a dealltwriaeth ohonynt, er enghraifft meithrin perthynas amhriodol, aflonyddu rhywiol, gwahaniaethu, bwlio ac eithafiaeth
- yn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cadw'n ddiogel rhag peryglon radicaleiddio
- yn sicrhau bod pob un o'r staff yn gwybod sut i ymateb i faterion diogelu
- yn sicrhau hyfforddiant diogelu perthnasol ar gyfer y swyddog arweiniol diogelu dynodedig a'r llywodraethwr arweiniol, a staff eraill, lle bo'n briodol
- yn defnyddio gwybodaeth am faterion diogelu, o fewn darpariaeth y coleg ei hun a darpariaeth unrhyw bartneriaid cyflenwi neu is-gontractwyr
- yn cynnwys uwch arweinwyr a llywodraethwyr i oruchwylio a sicrhau ansawdd diogelu

Dylai arolygwyr sicrhau:

- bod trefniadau ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn peri pryder
- pan mae trefniadau yn peri pryder difrifol, bod arolygwyr yn cynnwys argymhelliad yn yr adroddiad a bod Estyn yn anfon llythyr lles i'r coleg yn gofyn iddo amlinellu sut bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg(ion).

**Maes Arolygu 3 Arwain a gwella**

Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth o ran:

3.1 Cyfeiriad strategol a rheolaeth weithredol

3.2 Hunanwerthuso a gwelliant

3.3 Cynllunio a goruchwylio'r ddarpariaeth

3.4 Datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr ystyried yr agweddau isod yn sgil y gwahaniaeth a wnânt i gynnydd, lles a datblygiad dysgwyr.

**3.1 Cyfeiriad strategol a rheolaeth weithredol**

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae arweinwyr:

- wedi cyfleu gweledigaeth glir, nodau priodol, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgwyr
- yn cydweithio i yrru blaenoriaethau a gwelliant strategol ymlaen
- yn datblygu tîm effeithiol o staff, sydd wedi ymgysylltu
- yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, dysgwyr a nhw eu hunain
- yn modelu ac yn hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y coleg
- yn sicrhau eu bod nhw a'r staff ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol
- yn sicrhau eu bod nhw a phob un o'r staff yn deall ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r coleg
- yn monitro ac yn rheoli perfformiad partneriaid cyflwyno ac is-gontractwyr, yn ymwneud â dysgu, addysgu, lles, cymorth, arweiniad ac arweinyddiaeth
- yn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr, uniongyrchol ag anghenion tymor hir dysgwyr, y gymuned leol a Chymru
- yn atal problemau rhag digwydd neu'n rhoi camau unioni ar waith yn gyflym pan fydd problemau'n digwydd
- yn sicrhau cynnydd pob un o'r dysgwyr, gan arwain at ddeilliannau cryf a dilyniant cadarnhaol, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr ag anableddau ac ADY
- yn lleihau effaith tlodi ac anfantais ar les, cyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr
- yn sicrhau bod penderfyniadau am wariant a chynllunio ariannol ehangach yn cysylltu â blaenoriaethau strategol a chynllunio gwelliant
- yn sicrhau ansawdd a lefel staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno'r ddarpariaeth gynlluniedig yn effeithiol

- yn sicrhau bod lleoedd a chyfleusterau priodol ar gael ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon i gefnogi addysgu, dysgu, asesu a lles
- yn ystyried costau rhaglenni a gweithgareddau dysgu presennol a'u hadolygu'n gyson
- yn gwybod graddfa unrhyw arian dros ben neu ddiffyg o gymharu â chyllideb y coleg
- yn sicrhau bod unrhyw wariant yn gogwyddo gryn dipyn uwchlaw neu islaw'r gyllideb ddirprwyedig flynyddol yn briodol
- yn sicrhau bod cyllid ychwanegol a dderbyniwyd at ddibenion penodol, er enghraifft i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion penodol, yn cynnwys anabledd neu ADY, yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn unol â'r bwriad
- yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a datblygu medrau Cymraeg
- yn cynllunio sut i ddefnyddio technolegau newydd a datblygol, fel deallusrwydd artiffisial, yn effeithiol i wella gwaith y coleg

a pha mor dda y mae llywodraethwyr:

- yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau
- yn gwybod beth yw cryfderau'r coleg a'i feysydd i'w gwella
- yn deall ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau strategol y coleg
- yn cynorthwyo ac yn herio uwch arweinwyr wrth iddynt weithio i wella'r coleg neu gynnal safonau uchel

### 3.2 Hunanwerthuso a gwelliant

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr:

- yn casglu a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol i lywio gwerthusiad o waith y coleg
- yn gwybod beth yw cryfderau'r coleg a'r meysydd i'w gwella ar draws y sefydliad
- yn cydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid priodol, yn ogystal â'r dysgwyr eu hunain, yn ogystal, i werthuso a sicrhau gwelliannau
- yn sicrhau bod blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd yn cysylltu â deilliannau hunanasesu
- yn diffinio camau perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella gyda graddfeydd amser addas, ac yn dyrannu cyfrifoldeb ar gyfer eu cyflawni
- yn sicrhau bod blaenoriaethau gwella yn cael eu cefnogi gan ddyrannu adnoddau yn briodol
- yn meddu ar hanes cryf o ran gwneud gwelliannau sy'n cael effaith gadarnhaol ar les, dysgu, deilliannau a dilyniant dysgwyr
- yn sicrhau gwelliannau yn seiliedig ar yr argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn neu gan bartneriaid strategol
- yn gweithio i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan gynnwys sicrhau gwelliannau a fydd yn helpu mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

### 3.3 Cynllunio a goruchwylio'r ddarpariaeth

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth:

- yn cefnogi datblygiad galwedigaethol, academaidd a phersonol ystod lawn y dysgwyr, fel y bo'n briodol
- yn cael ei hadolygu a'i chynllunio'n strategol mewn cydweithrediad â darparwyr, rhanddeiliaid a phartneriaethau perthnasol (yn cynnwys ysgolion, awdurdodau lleol, a phartneriaethau medrau rhanbarthol) i sicrhau bod arlwy darpariaeth gydlynus ar waith yn lleol ac yn rhanbarthol sy'n diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau
- yn cynnwys ystod eang o raglenni dysgu difyr a heriol sy'n cyd-fynd â galluoedd a dyheadau dysgwyr, gyda llwybrau dilyniant clir at addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant
- yn cynnwys profiad yn gysylltiedig â gwaith i ddatblygu medrau galwedigaethol a chyflogadwyedd
- yn darparu ar gyfer grwpiau penodol, e.e. y rhai sydd â gwybodaeth a medrau datblygedig, neu ychydig iawn o wybodaeth a medrau, a'r rhai ag ADY neu sy'n siarad SIY / SSIE
- yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth fel eu bod yn datblygu annibyniaeth, medrau cyfathrebu ac yn gwneud penderfyniadau i'w helpu i baratoi ar gyfer eu camau nesaf
- ar waith ar gyfer datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, yn cynnwys integreiddio i brofiadau galwedigaethol, academaidd neu ehangach
- yn cefnogi datblygiad medrau Cymraeg ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, yn cynnwys manteision bod yn ddwyieithog / amlieithog
- yn cynnwys gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru
- yn cynnwys cyfleoedd dysgu ychwanegol, e.e. ymweliadau, cystadlaethau medrau, cymwysterau ychwanegol a gwaith elusennol

### 3.4 Datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr:

- yn rheoli perfformiad staff i'w helpu i wella'u harfer
- yn nodi ac yn hwyluso rhannu arfer dda
- yn mynd i'r afael â materion tanberfformio mewn ffordd gadarn ond cefnogol
- wedi sefydlu diwylliant ac ethos o gefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff
- yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol a rheoli perfformiad gwerthfawr
- yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar gynnydd a lles dysgwyr
- yn annog ac yn cynorthwyo staff i weithio gyda sefydliadau eraill i wella'u harfer a diweddaru eu medrau galwedigaethol a'u gwybodaeth dechnegol
- yn ystyried ac yn cefnogi lles staff, yn cynnwys ystyriaethau baich gwaith a'r graddau y mae arweinwyr yn ystyried effaith unrhyw ofynion gwaith newydd neu ddiwygiedig